BREUDDWYD Y BARDD.

Eisteddai hen fardd yn ei gadair,
Yn wargrwm a'i wallt fel y gwlan;
A'i feddwl a hedodd i'r amser
Y gwelid ei blant wrth y tan;
Ei anrant a gauodd, ac yna breuddwydiodd
Yn weddw ac unig heb neb i'w wahardd—
Yn ngwynfyd ei galon breuddwydodd y bardd.

Fe welodd ei hun yn priodi,
Genethig anwylaf y wlad;
Fe glywodd ei gyntaf anedig
Gan wenu 'n ei alw fe 'n "*dad!*"
Ni welodd ef gladdu, ei briod na'i deulu,
Na deilen wiwedig yn disgyn i'r ardd—
Na breuddwyd ei febyd freuddwydiodd y bardd.

Fe glywai hen glychau Llanarmon,
Yn fachgen fe deimlodd ei hun;
Breuddwydiodd hen deimlad y galon,
Sef hiraeth am ddyfod yn ddyn.
Ni chofiodd ef helynt y dyddiau'r aeth trwyddynt;
Ond tybiodd fod pobpeth yn hyfryd a hardd.
Breuddwydion ei galon a freuddwydiodd y bardd.

Or na bu un llinell mewn argraff
O waith y breuddwyd diwr ennyd
Fe wel ef e anurddiad gyfrolaeth
A dynion yn rhodio fel coed.
A bechgyn yn darllen cynnyrchion ei awen,
Fe wel anfarwoldeb trwy gwsg, ac fe chwardd,
Breuddwydion o galon freuddwydiodd y bardd.